Sunday the 27th of September 2026
+The17th Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, you have made us for yourself, and our hearts are restless till they find their rest in you : teach us to offer ourselves to your service, that here we may have your peace, and in the world to come may see you face to face; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Ezekiel
(18.1-4, 25-32)

The word of the Lord came to me: What do you mean by repeating this proverb concerning the land of Israel, "The parents have eaten sour grapes, and the children's teeth are set on edge"? As I live, says the Lord GOD, this proverb shall no more be used by you in Israel. Know that all lives are mine; the life of the parent as well as the life of the child is mine: it is only the person who sins that shall die. Yet you say, "The way of the Lord is unfair." Hear now, O house of Israel: Is my way unfair? Is it not your ways that are unfair?

When the righteous turn away from their righteousness and commit iniquity, they shall die for it; for the iniquity that they have committed they shall die. Again, when the wicked turn away from the wickedness they have committed and do what is lawful and right, they shall save their life. Because they considered and turned away from all the transgressions that they had committed, they shall surely live; they shall not die. Yet the house of Israel says, "The way of the Lord is unfair." O house of Israel, are my ways unfair? Is it not your ways that are unfair? Therefore I will judge you, O house of Israel, all of you according to your ways, says the Lord GOD. Repent and turn from all your transgressions; otherwise iniquity will be your ruin.

Cast away from you all the transgressions that you have committed against me, and get yourselves a new heart and a new spirit! Why will you die, O house of Israel? For I have no pleasure in the death of anyone, says the Lord GOD. Turn, then, and live.

The Psalm
(25.1-9)

To you, O LORD, I lift up my soul; O my God, in / you I / trust: do not let me be put to shame; do not let my / enemies / triumph / over me. Let none who look to you be / put to / shame; let the / treacherous be / shamed · and frus/trated.

Make me to know your / ways, O / LORD: and / teach me / your / paths. Lead me in your / truth and / teach me: for you are the God of my salvation; for you have I / hoped / all the day / long.

Remember, LORD, your com/passion and / love: for they / are from / ever/lasting. Remember not the sins of my youth or / my trans/gressions: but think of me in your goodness, O LORD, according / to your / steadfast / love.

Gracious and upright is the LORD: therefore shall he teach / sinners / in the / way. He will guide the humble in / doing / right: and / teach his / way to the / lowly. All the paths of the LORD are / mercy and / truth: to those who keep his / covenant / and his / testimonies.

The reading from Philippians
(2.1-13)

If then there is any encouragement in Christ, any consolation from love, any sharing in the Spirit, any compassion and sympathy, make my joy complete: be of the same mind, having the same love, being in full accord and of one mind. Do nothing from selfish ambition or conceit, but in humility regard others as better than yourselves. Let each of you look not to your own interests, but to the interests of others.

Let the same mind be in you that was in Christ Jesus, who, though he was in the form of God, did not regard equality with God as something to be exploited, but emptied himself, taking the form of a slave, being born in human likeness. And being found in human form, he humbled himself and became obedient to the point of death — even death on a cross.

Therefore God also highly exalted him and gave him the name that is above every name, so that at the name of Jesus every knee should bend, in heaven and on earth and under the earth, and every tongue should confess that Jesus Christ is Lord, to the glory of God the Father.

Therefore, my beloved, just as you have always obeyed me, not only in my presence, but much more now in my absence, work out your own salvation with fear and trembling; for it is God who is at work in you, enabling you both to will and to work for his good pleasure.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(21.23-32)

When Jesus entered the temple, the chief priests and the elders of the people came to him as he was teaching, and said, "By what authority are you doing these things, and who gave you this authority?"

Jesus said to them, "I will also ask you one question; if you tell me the answer, then I will also tell you by what authority I do these things. Did the baptism of John come from heaven, or was it of human origin?"

And they argued with one another, "If we say, 'From heaven,' he will say to us, 'Why then did you not believe him?' But if we say, 'Of human origin,' we are afraid of the crowd; for all regard John as a prophet." So they answered Jesus, "We do not know."

And he said to them, "Neither will I tell you by what authority I am doing these things.

"What do you think? A man had two sons; he went to the first and said, 'Son, go and work in the vineyard today.' He answered, 'I will not'; but later he changed his mind and went. The father went to the second and said the same; and he answered, 'I go, sir'; but he did not go. Which of the two did the will of his father?"

They said, "The first."

Jesus said to them, "Truly I tell you, the tax collectors and the prostitutes are going into the kingdom of God ahead of you. For John came to you in the way of righteousness and you did not believe him, but the tax collectors and the prostitutes believed him; and even after you saw it, you did not change your minds and believe him."

The collect following communion

Lord, we pray that your grace may always precede and follow us, and make us continually to be given to all good works; through Jesus Christ our Lord. AMEN

Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects*. Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 27ain Medi 2026
+ 17eg Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, gwnaethost ni ar dy gyfer di dy hun, ac y mae'n calonnau'n anniddig nes cael gorffwys ynot ti: dysg inni gynnig ein hunain i'th wasanaeth, fel y cawn yma dy dangnefedd, ac yn y byd a ddaw dy weld wyneb yn wyneb; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseciel
(18.1-4, 25-32)

Daeth gair yr ARGLWYDD ataf a dweud, "Beth a olygwch wrth ddefnyddio'r ddihareb hon am wlad Israel: 'Y rhieni fu'n bwyta grawnwin surion, ond ar ddannedd y plant y mae dincod'? Cyn wired â'm bod yn fyw," medd yr Arglwydd DDUW, "ni ddefnyddiwch eto'r ddihareb hon yn Israel. I mi y perthyn pob enaid byw, y rhiant a'r plentyn fel ei gilydd; a'r sawl sy'n pechu fydd farw. Eto fe ddywedwch, 'Nid yw ffordd yr Arglwydd yn gyfiawn.' Clywch hyn, dŷ Israel: A yw fy ffordd i yn anghyfiawn? Onid eich ffyrdd chwi sy'n anghyfiawn?

"Os bydd dyn cyfiawn yn troi o'i gyfiawnder ac yn gwneud drygioni, bydd farw o'i achos; am y drygioni a wnaeth bydd farw. Ond os bydd dyn drwg yn troi o'r drygioni a wnaeth ac yn gwneud barn a chyfiawnder, bydd yn arbed ei fywyd. Am iddo weld, a throi oddi wrth yr holl droseddau y bu'n eu gwneud, bydd yn sicr o fyw; ni fydd farw. Ac eto fe ddywed tŷ Israel, 'Nid yw ffordd yr Arglwydd yn gyfiawn.' A yw fy ffyrdd i yn anghywir, dŷ Israel? Onid eich ffyrdd chwi sy'n anghywir?

"Felly, dŷ Israel, fe'ch barnaf bob un am ei ffordd ei hun," medd yr Arglwydd DDUW. "Edifarhewch, a throwch oddi wrth eich holl wrthryfel, fel na fydd drygioni yn dramgwydd i chwi. Bwriwch ymaith yr holl droseddau a wnaethoch, a mynnwch galon newydd ac ysbryd newydd; pam y byddwch farw, dŷ Israel? Nid wyf yn ymhyfrydu ym marwolaeth neb," medd yr Arglwydd DDUW; "edifarhewch a byddwch fyw."

Y Salm
(1-9)

Atat ti, ARGLWYDD, y dyrchafaf fy enaid; O fy Nuw, ynot ti yr wyf yn ymddiried; paid â dwyn cywilydd arnaf, paid â gadael i'm gelynion orfoleddu o'm hachos.

Ni ddaw cywilydd i'r rhai sy'n gobeithio ynot ti, ond fe ddaw i'r rhai sy'n llawn brad heb achos. Gwna imi wybod dy ffyrdd, O ARGLWYDD, hyffordda fi yn dy lwybrau.

Arwain fi yn dy wirionedd a dysg fi, oherwydd ti yw Duw fy iachawdwriaeth; wrthyt ti y bûm yn disgwyl trwy'r dydd. O ARGLWYDD, cofia dy drugaredd a'th ffyddlondeb, oherwydd y maent erioed.

Paid â chofio pechodau fy ieuenctid na'm gwrthryfel, ond yn dy gariad cofia fi, er mwyn dy ddaioni, O ARGLWYDD. Y mae'r ARGLWYDD yn dda ac uniawn, am hynny fe ddysg y ffordd i bechaduriaid. Fe arwain y gostyngedig yn yr hyn sy'n iawn, a dysgu ei ffordd i'r gostyngedig.

Darlleniad o Philipiaid
(2.1-13)

Felly, os oes gennych yng Nghrist unrhyw symbyliad, unrhyw apêl o du cariad, unrhyw gymdeithas trwy'r Ysbryd, os oes unrhyw gynhesrwydd a thosturi, cyflawnwch fy llawenydd trwy fod o'r un meddwl, a'r un cariad gennych at eich gilydd, yn unfryd ac yn unfarn. Peidiwch â gwneud dim o gymhellion hunanol nac o ymffrost gwag, ond mewn gostyngeidd-rwydd bydded i bob un ohonoch gyfrif y llall yn deilyngach nag ef ei hun. Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunain yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd.

Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.

Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad.

Gan hynny, fy nghyfeillion annwyl, fel y buoch bob amser yn ufudd, felly yn awr, nid yn unig fel pe bawn yn bresennol, ond yn fwy o lawer gan fy mod yn absennol, gweithredwch, mewn ofn a dychryn, yr iachawdwriaeth sy'n eiddo ichwi; oblegid Duw yw'r un sydd yn gweithio ynoch i beri ichwi ewyllysio a gweithredu i'w amcanion daionus ef.

Darlleniad Efengyl ôl Sant Mathew
(21.23-32)

Daeth Iesu i'r deml, a phan oedd yn dysgu yno daeth y prif offeiriaid a henuriaid y bobl ato a gofyn, "Trwy ba awdurdod yr wyt ti'n gwneud y pethau hyn? Pwy roddodd i ti'r awdurdod hwn?"

Atebodd Iesu hwy, "Fe ofynnaf finnau un peth i chwi, ac os atebwch hwnnw, fe ddywedaf finnau wrthych trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneud y pethau hyn. Bedydd Ioan, o ble yr oedd? Ai o'r nef ai o'r byd daearol?"

Dechreusant ddadlau â'i gilydd a dweud, "Os dywedwn, 'O'r nef', fe ddywed wrthym, 'Pam, ynteu, na chredasoch ef?' Ond os dywedwn, 'O'r byd daearol', y mae arnom ofn y dyrfa, oherwydd y mae pawb yn dal fod Ioan yn broffwyd."

Atebasant Iesu, "Ni wyddom ni ddim."

Ac meddai yntau wrthynt, "Ni ddywedaf finnau chwaith wrthych chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneud y pethau hyn.

"Ond beth yw eich barn chwi ar hyn? Yr oedd dyn a chanddo ddau fab. Aeth at y cyntaf a dweud, 'Fy mab, dos heddiw a gweithia yn y winllan.' Atebodd yntau, 'Na wnaf'; ond yn ddiweddarach newidiodd ei feddwl a mynd. Yna fe aeth y tad at y mab arall a gofyn yr un modd. Atebodd hwnnw, 'Fe af fi, syr'; ond nid aeth. Prun o'r ddau a gyflawnodd ewyllys y tad?"

"Y cyntaf," meddent.

Dywedodd Iesu wrthynt, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych fod y casglwyr trethi a'r puteiniaid yn mynd i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chwi. Oherwydd daeth Ioan atoch yn dangos ffordd cyfiawnder, ac ni chredasoch ef. Ond fe gredodd y casglwyr trethi a'r puteiniaid ef. A chwithau, ar ôl ichwi weld hynny, ni newidiasoch eich meddwl a dod i'w gredu."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd, gweddïwn am i'th ras ein rhagflaenu a'n dilyn bob amser, a gwna i ni ymroddi'n gyson i bob gweithred dda; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.